



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 25/10/2016 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday 25/10/2016 at 7pm.

Presennol / Present: Gareth W Roberts OBE, Robert Whitfield, Myrddin W Owens, Helen Hughes, Meg Roberts, John Byast, Gordon Warren, Miriam Sanders, Nige Ault, Cyng/Cllr Wil Hughes, Cyng/Cllr Aled Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (clerc/clerk), Hywel Hughes (cyfieithu/translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Mike Roberts, Gareth Owen

1 Croeso / Welcome

Fe groesawyd rheini oedd yn bresennol gan Gareth W Roberts.
Gareth W Roberts welcomed all present.

2 Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd / Appoint Chair and Vice Chair

Enwebwyd Gareth W Roberts yn Gadeirydd. Cynnig Myrddin Owens, eilio John Byast. Roedd pawb o blaid. Derbyniwyd y Gadair gan nodi'r amgylchiadau trist.

Enwebwyd Myrddin Owens yn Is-gadeirydd. Cynnig Meg Roberts, eilio Helen Hughes. Roedd pawb o blaid. Derbyniwyd y swydd gan ddiolch am y gefnogaeth.

Gareth W Roberts was nominated ad Chair. Proposed Myrddin Owens, seconded John Byast. All in agreement. Gareth W Roberts accepted the position noting the sad circumstances.

Myrddin Owens was nominated as Vice Chair. Proposed by Meg Roberts, seconded Helen Hughes. All in agreement. Myrddin Owens accepted the position thanking all for their support.

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Cymerdwywyd y cofnodion yn gywir gan John Byast, eilio gan Helen Hughes.
The minutes were approved as a true record by John Byast, seconded by Helen Hughes.

4 Materion yn codi / Matters arising

4.1 Fferm Solar Farm

Cadarnhawyd bydd Cyng Aled M Jones yn siarad ar ran y cymunedau lleol gan bod Cyng Wil Hughes a Cyng Richard Jones yn datgan diddordeb ar y cais.

It was confirmed that Cllr Aled M Jones would speak on behalf of the communities as both Cllr Wil Hughes and Cllr Richard Jones have declared an interest on the application.

4.2 Swyddfa Bost / Post Office

Cadarnhawyd mai dim ond yn y mis diwethaf cafwyd cytundeb ffurfiol gyda Spar (Blakemore). Er bod yr aelodau yn falch iawn o weld y gwasanaeth yn dychwelyd i'r dref, roedd pryderon gan rai am leoliad y cownter a phreifatrwydd cwsmeriaid. Pwylsleiswyd bod Hyfforddiant Parys wedi cynnig prynnu adeilad mewn partneriaeth a'r Cyngor Tref er budd y gymuned. Mae'r Swyddfa Bost yn ymgynghori ar hyn o bryd wrth fynd drwy'r broses swyddogol.

It was confirmed that it was only in the last month that a formal contract had been obtained with Spar (Blakemore). Although the members were very grateful to see the service returning to the town, one or two had reservations regarding the location of the service counter and customers' privacy. It was emphasised that Parys Training had offered to purchase a building in partnership with the Town Council for the benefit of the community. The Post Office is currently in consultation and moving through the formal process.

4.3 Maes Parcio Porth Llechog / Bull Bay Car Park

Nid oes ymateb gan CSYM hyd yma, gofynnwyd i Cyng Richard Jones gysylltu ar ran y Cyngor Tref. *There is no response from IACC as yet. Cllr Richard Jones was asked to make contact on behalf of the Town Council.*

4.4 Ynys Ynni / Energy Island

Nid oes ymateb fyth ynglyn ag aelodaeth y grwp. *Still no response regarding the membership of the group.*

5 Seddi Gwag / Vacant Seats

Mae pedwar sedd gwag ar hyn o bryd. Mae un unigolyn wedi dangos diddordeb hyd yma. Nid oes gofyn am etholiad felly mae cyfle i unigolion wneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor i gael eu hystyried. Y dyddiad cau i ymgeisio yw 11/11/2016. Mae'r poster ar y wefan ac yn y hysbysfwrdd. Cytuno byddai panel o gadeiryddion yn cyfweld ag unrhyw ymgeisgwyr (Gareth W Roberts, Myrddin Owens, Meg Roberts ac Miriam Sanders)

There are currently four vacant seats. One individual has shown an interest to date. There has not been a request for an election therefore there is an opportunity for individuals to apply in writing to the Council to be considered. The closing date for applications is 11/11/2016. The poster is on the website and in the notice board. It was agreed that a panel of Chairpersons would interview any applicants (Gareth W Roberts, Myrddin Owens, Meg Roberts and Miriam Sanders)

6 Pwyllgorau Allanol / External Meetings

6.1 Grwp Prosiect Wylfa Newydd Project Liaison Group

Cafwyd adroddiad cryno gan Myrddin Owens. Nodwyd bod yr un cwestiynnau yn codi tro ar ol tro ond nad oedd y cwestiynnau yn cael eu hateb. Nodwyd siom am ddatganiad yn y wasg gan Arweinydd y Cyngor Sir yn nodi mai dim ond 45% o bobl fyddai'n cael gwaith yn y pwerdy wedi'r gwaith adeiladu ddod i ben fydd yn bobl lleol. Roedd swyddogion Horizon yn gwadu'r ffigyrau yma. Gofynnwyd iddynt newid eu diffiniad o bobl lleol ac ystyried lleihau'r amser theithio i'r gwaith o 90 munud i 60 munud. Pwysleiswyd budd datblygu safle Rhosgoch i'r ardal leol.

Myrddin Owens gave a short summary. It was noted that the same questions are asked time and time again and that no answers were given. Disappointment was noted regarding the statement made in the press by the Leader of IACC noting that only 45% of the operational workforce would be local people when the building work has been completed. Horizon's officers denied these figures. Horizon was asked to change their definition of 'local' and consider changing the commute time from 90 minutes to 60 minutes. The benefit to the wider area of developing the Rhosgoch site was emphasised.

6.2 Cyfarfod Cyhoeddus / Public Meeting

Cafwyd adroddiad gan Gareth W Roberts am gyfarfod positif iawn gyda bron i 100 o bobl yn bresennol. Diolchwyd i aelodau am eu cefnogaeth yn benodol i Gordon Warren, Bob Whitfield a Meg Roberts am eu gwaith i ddosbarthu posteri a'r ddeiseb yn y gymuned a hefyd diolchwyd i John Byast a Miriam Sanders am rannu gwybodaeth ffeithiol ar y we. Diolchwyd hefyd i Carol Macglagan. Nodwyd mai'r rheswm oedd y cyfarfod wedi ei alw oedd gan nad oedd y Cyngor yn teimlo bod y gymuned yn ymwybodol o gynnwys PAC2.

Teimlwyd nad oedd y Cyngor Sir wedi gweithio'n ddigonol i ddiogelu Amlwch a cynnig yr un cyfleon i'r ardal (oi gymharu a Chaergybi). Roedd nifer o straeon yn y gymuned cyn y cyfarfod ac roedd yn gyfle i'w distewi.

Nid yw'r Cyngor Tref yn erbyn codi tai. Nodwyd mai tai fforddiadwy sydd ar gynnig, ond nid oedd

diffiniad o beth sy'n 'fforddiadwy'. Nododd Gareth W Roberts y byddai tai cymdeithasol (i'w rhentu) yn fwy o fudd i'r gymuned ac i bobl ifanc ardal Amlwch a'r cylch. Cynllun tebyg oedd Maes Llwyn pan adeiladwyd yr orsaf bresennol. Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd unrhyw son yn PAC2 am weithio mewn partneriaeth gyda CSYM i adeiladu tai cymdeithasol ar dir CSYM.

Roedd yr aelodau yn datgan pryder ynglyn ag ymateb CSYM i ddatblygiad Rhosgoch (tud 11 o'r ddogfen ymgynghori). Fe gadarnhaodd y tri Cynghorydd Sirol eu bod o blaid datblygu'r safle. Nodwyd bod trafodaethau'r Cyngor Sir gyda swyddogion Horizon yn cynnwys y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a Phennaeth yr Adran Economaidd. Mae angen i'r Cyngor Sir gysylltu a'r cymunedau a chynghorau lleol. Mae'r cynghorau lleol eisioes yn gweithio gyda'u gilydd mewn partneriaeth. Mae'n hanfodol bwysig bod y tri cynghorydd sirol yn cydweithio er budd yr ardal.

Cafwyd pump pleidlais yn y cyfarfod cyhoeddus ac roedd cefnogaeth frwd o blaid pob un. Y Materion dan sylw oedd:

- 1) Yr angen am welliananu i'r lon
- 2) Datblygu safle Shell Rhosgoch
- 3) Gwrthwynebu gwrsyll dros dro yn y dref
- 4) Yr angen i hybu cyfleon i bobl lleol gael gwaith
- 5) Yr angen am dai cymdeithasol i bobl y cylch

Mae cais wedi wedi ei wneud i Albert Owen i drefnu cyfarfod gyda prif swyddogion y Cyngor Sir, Horizon, Rhun ap Iorwerth a chynrychiolwyr y Cyngor Tref.

Diolchwyd i Gareth W Roberts am drefnu'r cyfarfod. Bydd cyfarfodydd eraill tebyg yn cael eu trefnu i drafod materion eraill o fudd i'r dref yn unol a gofyn y rheini oedd yn bresennol.

Gareth W Roberts gave a report on a very positive meeting held with nearly 100 people present. Members were thanked for their support, in particular Gordon Warren, Bob Whitfield and Meg Roberts for their work in distributing posters and the petition in the community and also John Byast and Miriam Sanders for sharing factual information online. Carol Macglagan was also thanked for her support. It was noted that the reason for calling the meeting was that the Council did not feel that the community were aware of the content of PAC2.

It was not felt that the County Council had worked sufficiently to safeguard Amlwch and offer the same opportunities to the area (in comparison to Holyhead). There were a number of rumours in the town prior to the meeting and the meeting was an opportunity to address them.

The Town Council are not opposed to building houses. It was noted that the houses on offer are 'affordable' houses yet there was no definition of what affordable was. Gareth W Roberts noted that social housing (for rent) would be of more benefit to the community and the young people of the Amlwch area. A similar scheme to Maes Llwyn, when the original power station was built. Members were disappointed that there was no mention in PAC2 regarding partnership working with IACC to build social housing on IACC land.

Members voiced their concern regarding IACC's response to the development of Rhosgoch (page 11 of the consultation document). The three County Councillors confirmed that they are in favour of development on the site. It was noted that IACC discussions with Horizon included the Chief Executive, the Leader and the Head of Economic development. The County Council needs to listen to the communities and local councils. The local councils are already working together in partnership. It is essential that the three County Councillors also work in partnership for the benefit of the community.

Five votes were taken at the public meeting and there was overwhelming support in favour of each one. The matters in question were:

- 1) *the need for improvements to the road*
- 2) *development of the Rhosgoch Site*
- 3) *objection of the proposed temporary camp in the town*
- 4) *the need to promote opportunities for local people to get work*
- 5) *The need for social housing for the people of Amlwch area*

A request was made to Albert Owen to arrange a meeting with the senior officers of IACC, Horizon, Rhun ap Iorweth and representative of the Town Council.

Gareth W Roberts was thanked for arranging the meeting. Similar public meetings will be arranged in due course to discuss other matters of interest in the community as requested by those present.

7 Cynllunio / Planning

Roedd un cais i'w ystyried sef cais ol-weithredol am beiriant arian yn Siop Blakes. Nodwyd bod y peiriant eisioes wedi ei osod ac nad oes peiriant arian yn HSBC mwyach. Nid oedd gwrthwynebiad.

Cafwyd wybod bod cais 24 Awelfryn wedi ei ganiatau drwy apel (er bod Pwyllgor Cynllunio CSYM eisioes wedi ei gymeradwyo). Nodwyd siom a theimlwyd nad oedd neb yn gwrandao ar sylwadau a gwrthwynebiad y gymuned leol.

One application was presented, a retrospective application for the installation of a cash machine and signage at Siop Blakes. It was noted that the machine is already in place and that there is no longer a cash machine at HSBC. There was no objection.

Those present were informed that the application at 24 Awelfryn had been granted through appeal (although it had already been granted by the Planning Committee IACC). Members noted their disappointment and feeling that no-one listened to the observations and objections of the local community.

8 Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid gan Myrddin Owens. Nodwyd bod ffurflen flynyddol yr archwiliad allannol wedi ei ddychwelyd erbyn hyn ynghyd a'r adroddiad gan BDO. Nodwyd ei gynnwys gan gadarnhau bod cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor cyllid wedi ei drefnu ar gyfer 2/11/2016 i drafod ymhellach. Bydd cyfle hefyd i drafod y rheolau sefydlog a chytundeb y clerc.

Daw cais i rentu y ciosg ger toiledau porth Amlwch, cytuno ar rhent wythnosol o £10 am gyfnod o 12 mis. Y tenant fyddai'n gyfrifol am gostau treth a thrydan. Redd y Cyngor Llawn yn fodlon archebu goleuadau Nadolig newydd (gwith £3.5k). Mae cais am arian wedi ei wneud am gyfraniad tuag at y goleuadau Nadolig.

Myrddin Owens gave a short overview of the last Finance Committee meeting. It was noted that the annual return form had been returned by the external auditors along with the report on their findings. Its content was noted and it was confirmed that a special meeting of the finance committee had been arranged for 2/11/2016 to discuss in detail. There will also be an opportunity to discuss the standing orders and clerk's contract.

An application has been received to rent the kiosk in Amlwch Port. A rent of £10 per week for a 12 month period was agreed. The tenant would be responsible for the rates and electricity costs. The full council was happy to order new Christmas Lights (worth £3.5k). An application for funding towards the costs has been submitted.

9 Toiledau Cyhoeddus / Public Toilets

Deallwyd gan Cyng Richard Jones ei bod yn debyg na fydd y toiledau'n cau am o leiaf blwyddyn arall. Bydd y Cyngor Sir yn trin pedair o'r adeiladau led led yr ynys.

It was understood from Cllr Richard Jones that it was unlikely that the toilets would close for another 12 months. The County Council will be renovating four of the buildings island wide.

10 Lyfrgelloedd / Libraries

Mae gwaith yn parhau ar ymchwiliad ac adroddiad Menter Mon. Mae'n debyg bod cynghorau eraill erbyn hyn wedi gofyn am drosglwyddiad asedau yn hytrach na les hir dymor. Bydd y mater i'w drafod gan y Pwyllgor Gwaith eto yn fuan.

Work is still ongoing on the study and report commissioned by Menter Mon. it appears that other councils are now also asking for asset transfer rather than a long term lease. The matter will be discussed by the executive committee IACC again soon.

11 **Wylfa Newydd (PAC2)**

Gweler 'Pwyllgorau Allannol' uchod / See 'External Meetings' above.

Gofynwyd am lythyr gan y tri cynghorydd sirol yn cadarnhau eu cefnogaeth i adeiladu tai cymdeithasol yn yr ardal, eu gwrthwynebiad i wersyll dros dro yn y dref, a'u cefnogaeth i ddatblygu safle Rhosgoch er budd y gymuned hir dymor.

The three County Councillors were asked for letters confirming their support for the building of social housing in the area, their objection to the building of a temporary camp in the town and their support to develop Rhosgoch for the long term benefit of the community.

12 **Gohebiaeth / Correspondence**

12.1 Grid Cenedlaethol / National Grid

Mae ymgynghoriad arall ar y gweill. Cytuno byddai'r Cyngor yn gwrthwynebu peilonau ar draws Mon a Gwynedd. Teimlwyd siom bod y Grid yn mynd tan ddaear mewn ardaloedd eraill ac nid ym Mon.

Another consultation is ongoing. Agreed that the Council oppose pylons across Anglesey and Gwynedd. Disappointment was noted that the cables are to go underground in other areas and not Anglesey.

12.2 Cyngor ar Bopeth / Citizen's Advice Bureau

Daw gwahoddiad i gyfarfod blynyddol y mudiad. Bydd Gordon Warren yn mynychu ar ran y Cyngor. *An invitation to attend the AGM. Gordon Warren will attend on behalf of the Council.*

12.3 BT

Mae ymgynghoriad ar y gweill i diddymu blychau ffon yn y gymuned gan nad oes digon o ddefnydd ohonynt bellach. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y cynllun i fabwysiadu blychau. Roedd pryderon am diddymu blychau o ardaloedd gwledig ble nad oes signal ffon symudol cadarn.

A consultation is ongoing to remove phone boxes within the community as they are not used often enough. More information regarding adopting phone boxes was requested. There were concerns regarding the removal of phone boxes in rural areas with poor mobile signal.

12.4 Cyfarfod – Busnesau Amlwch Businesses - Meeting

Daw cais ar ran busnesau Amlwch i drefnu cyfarfod i drafod pryderon yn y dref. Cytuno cynnal cyfarfod yn y Siambr.

A request from Amlwch businesses to arrange a meeting to discuss their concerns. Agreed to hold a meeting in the Chamber.

12.5 Pantri No 6

Cafwyd llythyr gan y grwp yn gofyn am roddion ychwanegol dros gyfnod y Nadolig. Mae Gareth W Roberts ac Myrddin Owens wedi cwrdd a'r grwp yn y gorffennol. Cytuno gwahodd yr aelodau i'r cyfarfod nesaf i drafod y prosiect.

A letter was received from the group asking for additional donations during the festive period. Gareth W Roberts and Myrddin Owens have already met with the group in the past. Agreed to invite members to the next council meeting.

13 **Unrhyw fater arall / Any other business**

13.1 Cae Chwarae Craig y Don Play Field

Mae gwaith clirio wedi'w gwblhau yng Nghraig y Don yn dilyn cwynion am sbwriel a gordyfiant. Mae'r twmpath wedi ei losgi'n ddiogel wedi cwynion pellach am fwy o sbwriel yn cael ei adael. Mae'n debyg bod un neu ddau yn bwriadu cynnal coelcerth a than gwyllt yn y cae chwarae. Cytuno na fydd y Cyngor yn gefnogol o'r fath weithgareddau onibai bod grwp yn gallu cyflwyno tystiolaeth o yswiriant ac yn cymryd cyfrifoldeb.

Roedd pryderon nad oedd y gweithgareddau o fewn termau'r les gyda'r Cyngor Sir. Byddai angen cadarnhau gyda'r Cyngor Sir os daw grwp ymlaen.

Cytuno pasio'r mater i'r heddlu er gwybodaeth.

Following complaints about overgrowth and littering, some clearance work has been carried out; the bonfire has been burnt safely following further complaints of fly tipping. It appears that one or two are proposing to have a bonfire and fireworks in the play field. Agreed that the Council would not be supportive of such activities unless a group could present evidence of adequate insurance and take responsibility.

There were concerns that the activities were not in line with the IACC lease. This would need to be confirmed with IACC should a group come forward.

Agreed to pass the matter onto the police for information.

13.2 Llwybrau / Footpaths

Nodwyd bod rhywun yn tynnu cerrig oddi ar y waliau a'r taflu ar lawr ar hyd y llwybr o Maes Salem i Awelfryn. Mae pryderon am ddiogelwch defnyddwyr gan bod nifer o bobl hyn yn defnyddio'r llwybr.

It was noted that someone is taking stones off the walls and dropping them onto the footpath between Awelfryn and Maes Salem. There were concerns regarding the safety of users as the path is often used by elderly people.

13.3 Goleuadau Nadolig / Christmas Lights

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Parciau a Mannau Agored aros ar ddiwedd y cyfarfod i gadarnhau manylion troi'r goleuadau ymlaen. Bydd y goleuadau newydd yn eu lle erbyn hynnu. Cadarnhawyd bod ceisiadau am arian grant wedi eu cyflwyno am gefnogaeth tua'r gost o'i prynnu.

Members of the Parks and Open Spaces Committee were asked to stay behind after the meeting to confirm the details for switching on the lights. The new lights will be in place by then. It was confirmed that applications for funding had been submitted toward the cost of purchase.

13.4 Clwb Pel Droed Amlwch Town Football Club

Cafwyd wybod gan Cyng Richard Jones bod y Clwb yn gobeithio gosod gwyneb artiffisial 3G yn Lon Bach ac yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i sicrhau arian i wneud hynnu. Nodwyd byddai angen i'r Clwb ofyn i'r Cyngor am ganiatad yn gyntaf gan mai'r Cyngor sydd berchen ar y cae. Bydd Cyng Richard Jones yn gofyn i Greg Evans, Cadeirydd y Clwb gysylltu cy gynted a phosib.

Cllr Richard Jones stated that the Club are hoping to install an artificial surface (3G) at Lon Bach and would appreciate the support of the Town Council in order to secure adequate funding. It was noted that the Club would need to ask the permission of the Town Council in the first instance as the Council own the field. Cllr Richard Jones to ask Greg Evans, Club Chairman to make contact as soon as possible.

13.5 'Food Slam'

Nodwyd bod Cyng Aled M Joens wedi enwebu Porth Amlwch fel safle posib ar gyfer cynnal y digwyddiad y flwyddyn nesaf.

It was noted that Cllr Aled M Jones had nominated Amlwch Port as a possible venue for the event next year.

14 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 22/11/2016 am 7yh.

The next meeting will be held Tuesday evening 22/11/2016 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 20:15 o'r gloch. / *The meeting closed at 20:15pm.*

CET10/2016

Arwyddwyd / Signed
Gareth Winston Roberts OBE
Cadeirydd/Chair